

Rhywbeth ar gyfer y 'plant' yw'r Nadolig

'Rhywbeth i blant yw'r Nadolig!' Do, clywais hynny'n cael ei ddweud droeon gan ambell surbwch ar hyd y blynyddoedd, yn gyfiawnhad dros beidio â gwneud unrhyw ymdrech i ymgolli yn hud a lledrith yr ŵyl ryfeddol hon. Bob tro, byddwn yn ymateb gan ddweud bod y Nadolig yn achlysur o bwys i bawb, ac yn gyfle i ddathlu a diolch.

Ond, eleni, mae'n debyg mai clywed sŵn a bwrllwm y plant unwaith yn rhagor fydd yn aros yn y cof ac yn goron ar y dathliadau. Dyma rannu â chi dri llun o'm gofalaeth i, Gofalaeth Chwilog, Pencaenewydd, Llwyndyrys, Tyddyn Shôn, a Chapel y Beirdd yn ardal Dwyfor.

Yn rhifyn dechrau Ionawr o *Cenn@d*, rydyn ni'n gobeithio rhannu llawer iawn mwy o luniau â chi o bob cornel o Gymru. Beth am anfon eich lluniau chi atom, gan wneud hynny cyn diwedd y flwyddyn, os gwelwch yn dda, fel ein bod yn gallu llenwi sawl tudalen â lluniau'r plant yn dathlu'r Nadolig?

Am y tro cyntaf mewn tair blynedd llwyddwyd i gynnal tri gwasanaeth yn cynnwys Drama'r Geni yn yr ofalaeth hon. Cafwyd sawl te parti efo ymweliad gan Siôn Corn, gwasanaeth carolau yng nghwmni plant yr ysgol leol a chyfle i ganu carolau o gwmpas y pentref. Er gwaethaf pob ymdrech dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ffilmio oedfaon, postio anrhegion ac anfon bwyd parti mewn boc, a chydfwyta ar Zoom, roedd rhywbeth yn chwithig yn y dathliadau ynysig hynny. Wrth fodio drwy dudalennau ar Facebook nos Sul diwethaf, cysur mawr oedd gweld lluniau lliwgar o olygfeydd y Geni ac ambell ymddangosiad gan Siôn Corn mewn capeli ar hyd a lled Cymru. Ie, heb os, mae'r Nadolig yn gyfnod pan fyddwn ni'n cael pleser a boddhad o weld wynebau'r plant yn ymateb i ryfeddod yr ŵyl. Diolch am bob un plentyn sy'n rhan o fywyd a gweithgarwch ein heglwysi.



Gwasanaeth Nadolig Pencaenewydd

ar hynny yn y flwyddyn newydd gan geisio adfer sawl ysgol Sul a ddfilannodd dros gyfnod y pandemig? Diolch am ymdrech sawl capel i geisio cynnal rhywbeth yng nghwmni'r plant a'r ieuencid yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ond cofiwn fod cyfrifoldeb pellach arnom i ofalu am eu lles ysbrydol gydol y flwyddyn, ac nad ydynt yno er mwyn ein diddanu ni adeg y Nadolig yn unig.

Gŵyl i BAWB yw Gŵyl y Nadolig

Ond, a mynd yn ôl at bennawd yr erthygl. Newyddion da efengyl Iesu yw fod arwyddocâd geni Iesu ar gyfer pawb yn ddiwahân. Oes, mae 'na lawer o draddodiadau Nadoligaidd sydd yno ar gyfer y plant, o groesawu Siôn Corn i ddeffro'n blygeiniol o gynnar i agor yr anrhegion.

Ac yn hanes y Nadolig cyntaf hwnnw ym Methlehem, plentyn ifanc yw canolbwynt yr holl gyffro. Ond os mai plentyn sy'n ganolog i'r hanes, does dim byd yn blentynnaidd am yr ŵyl. Mae'r Adfent a'r Nadolig yn gyfle i blant o bob oed, ac i bob plentyn sydd wedi tyfu i fyny i ymgolli yn y gobaith a'r goleuni a ddaeth i'r byd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Yng ngeiriau Eiseia, 'Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch'. Ac mae hynny'n gwneud y Nadolig yn ŵyl i bawb yn ddiwahân.

Aled Davies



Gwasanaeth Nadolig Chwilog

Tu hwnt i'r Nadolig?

Ond cofiwn yr un pryd nad 'rhywbeth ar gyfer y Dolig yn unig' yw plant. Gwn am rai capeli aeth allan i chwilio am blant er mwyn cynnal oedfa yn eu cwmni dros y Nadolig, ond nad oes unrhyw ddarpariaeth arall yno ar eu cyfer gweddill y flwyddyn. Os llwyddwyd i gynnull y plant ynghyd eleni, beth am adeiladu



Plant Ysgol Sul capel Llwyndyrys gyda Siôn Corn

O 'Ellydd Melindwr' i Sŵn y Jiwibili

Dathlu daucanmlwyddiant geni leuan Gwyllt

Fyddwch chi'n canu 'Wele fi yn dyfod' (emyn 454, *Caneuon Ffydd*) dros y Nadolig? Fyddwch chi'n meddwl am awdur y geiriau?

Drycinog a gaeafol iawn oedd hi ddwy ganrif yn ôl, nos Wener, 27 Rhagfyr 1822, pan anwyd mab i Evan ac Elizabeth Roberts, Tanrhiwfelen, Capel Seion, ger Aberystwyth. Roedd y teulu'n mynychu capel Pen-llwyn, ac yno y cafodd y mab, John, ei fedyddio ar 30 Ionawr 1823. Y John hwn fyddai'n ysgrifennu 'Wele fi yn dyfod', a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn *Blodau Cerdd* yn 1852.

Roedd John wrth ei fodd yn crwydro'r caeau a'r brynau o gwmpas ei gartre, ac wrth ddechrau barddoni, cymerodd yr enw barddol 'leuan Gwyllt Gellydd Melindwr'. Gan fod hynny'n dipyn o lond ceg, cafodd ei dalffyrnu'n weddol fuan i 'leuan Gwyllt', a than yr enw hwnnw mae'n cael ei adnabod a'i gofio.

Bu'n glerc gyda chwmmi o fferyllwyr yn Aberystwyth, yna'n cadw ysgol, yna'n glerc eto gyda chwmmi o gyfreithwyr. Yn 1852 ymatebodd i hysbyseb am is-olygydd i bapur newydd *Yr Amserau* yn Lerpwl. Golygydd y papur oedd y bardd-bregethwr William Rees, 'Gwilym Hiraethog'. Disgwyliai leuan mai ei waith ef fyddai cyfrannu erthyglau cyffredinol ac ambell erthygl olygyddol, ond pan gyrhaeddodd y swyddfa, dealodd fod y baich yn mynd i ddisgyn yn bennaf arno ef. Datblygodd yn newyddiadurwr pendant ei farn a llym ei dafod, ac yn ystod Rhyfel y Crimea digiodd arweinwyr ei enwad, y Methodistiaid Calfinaidd, trwy feirniadu polisi rhyfelgar y llywodraeth. Ond doedd e ddim yn un i boeni'n ormodol am farn eraill.

Roedd Lerpwl yn bwysig iddo am reswm arall. Er pan oedd yn fachgen roedd wedi ymddiddori mewn cerddoriaeth, ac yn Lerpwl cafodd gyfle i ymuno â'r Gymdeithas Ffilharmonig ac i fynychu cyngherddau yno ac yn Llundain. Ymddiddorodd yng nghanu cynulleidfaol capeli'r ddinas, a dechrau darlithio ar gerddoriaeth. Dechreuodd hefyd gasglu tonau at ei gilydd gyda'r bwriad o ddarparu casgliad safonol o'r tonau gorau at ddefnydd ei gyd-wladwyr.

Penllanw'r gwaith o gasglu oedd cyhoeddi'r *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* yn 1859. Anelodd at osod safon newydd i'r cynulleidfa oedd gyda thonau wedi eu trefnu'n syml ac urddasol, yn unol â'i athroniaeth mai hynny'n unig oedd yn gweddu i wasanaeth crefyddol. Dechreuodd ar grwsâd i wella caniaadaeth y capeli, a defnyddiodd sawl offeryn i'w hyrwyddo: y *Llyfr Tonau* ei hunan, a werthodd yn ei filoedd, a chylchgrawn *Y Cerddor Cymreig*, a olygodd leuan o'i ddechreuad yn 1861 hyd ei ddiwedd yn 1873. At hynny, cefnogodd nodiant newydd y Tonic Sol-ffa, a gyflwynwyd i'r Cymry gan ei gyfaill o Lerpwl, Eleazar Roberts. Dechreuodd leuan hyrwyddo'r nodiant newydd fel cyfrwng i ddysgu canu'n gywir, ac fe gyhoeddodd argraffiad sol-ffa o'r *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* yn 1863.

Roedd yn adeg dda i hyrwyddo gwelliant yn y canu. Digon amrwd, yn ôl adroddiadau'r cyfnod, oedd llawer o ganu cynulleidfaol y capeli, gyda phobl yn mynd allan o'r capel wedi'r bregeth tra oedd rhyw ran arall o'r gynulleidfa wrthi'n canu pennill. Tonau blodeuog ac ailadroddus oedd llawer o'r tonau. Hefyd, wedi cynnwrf Diwygiad 1859, roedd cynulleidfa oedd yn lluosogi, ac erbyn yr 1860au roedd yr enwadau yn dechrau mynd yn fwy ffurfiol a 'pharchus'. Felly, am resymau o drefn yn ogystal â rhesymau cerddorol, roedd awydd i wella'r canu. A choron ar y cyfan oedd datblygu'r gymanfa ganu yn offeryn er lles caniaadaeth, symudiad a hyrwyddodd leuan yn egniol.



Llun: Paentiad o leuan Gwyllt gan Evan Williams. Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Gwelodd newid yn ei fywyd ei hun. Symudodd i Aberdâr yn 1858 i olygu papur newydd *Y Gwladgarwr*; yna yn 1859 cafodd wahoddiad i fugeilio capel Pant-tywyll, Merthyr Tudful. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn 1861. Symudodd i'r Capel Coch, Llanberis, yn 1865, ac ymddeol i'r Fron, ger Caernarfon, lle bu farw yn 54 oed ar 14 Mai 1877.

Erbyn hynny roedd wedi cychwyn ar genhadaeth arall, sef hyrwyddo emynau Sankey a Moody, a gyfieithodd yn y casgliad *Sŵn y Jiwibili*. Yn ôl pob sôn, doedd leuan ddim yn bregethwr nac yn siaradwr gafaelgar, er cryfied ei argyhoeddiadau. Fe'i swynwyd gan Sankey a Moody am eu bod yn llwyddo i gyrraedd eu cynulleidfa, efallai mewn ffordd na lwyddodd ef, yn ei dyb ei hunan o leiaf. Ond o feddwl am faint ei ddylanwad ymhlith pobl ei gyfnod, gallwn yn hawdd ei gydnabod yn un o'r mawrion.

Rhidian Griffiths

Gwasanaeth Sefydlu

Cynhelir Gwasanaeth Sefydlu'r Parchedig Ddr Alun Morton Thomas, MA (Cantab), MA, PhD, yn weinidog ar Ofalaeth Fro Llanfair-pwll a'r Cylch ddydd Sadwrn, 14 Ionawr 2023, am 2 o'r gloch yn Eglwys Unedig Rhos y Gad, Llanfair-pwll.

Estynnir croeso cynnes i bawb.

Cinio Nadolig Gweinidogion Bro'r Preseli

Yng ngeiriau un o feirdd y Cilie, 'Ganol gaeaf noethlwm / cwynai'r rhewynt oer', ar fore sythlyd, gaeafol, mwynhaodd Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli gymdeithas gynnes yng Ngaffi Beca, fore dydd Mawrth, 13 Rhagfyr, yn ein cyfarfod cyn y Nadolig. Ein siaradwr gwadd eleni oedd Jon Meirion Jones, Llangrannog, un o dylwyth y Cilie, a rannodd gyda ni lawer o hanesion difyr am deulu'r Cilie yn ogystal â nifer o'i englynion a barddoniaeth beirdd y Cilie.

Yna cawsom fwynhau o amgylch y bwrdd ein cinio Nadolig blynyddol. Braf oedd cael cwmni ein Cyn-gadeirydd, y Parch. Howell Mudd, gyda ni, wedi blwyddyn anodd yn ei hanes, a chawsom ddymunon'n dda i'n Cadeirydd presennol, y Parch. Ken Thomas, sy'n ymdeol ddiwedd y flwyddyn. Dymunodd yntau Nadolig Llawen i bawb ohonom.

*Emyr Gwyn Evans
Ysgrifennydd*



Taro'r Post

Annwyl Olygydd,

Rai dyddiau yn ôl, wrth bori ar YouTube, fe ddois ar draws hysbyseb o dan y teitl 'Yorkshire Christmas Advert'. Ychwanegir y farn fod yr hysbyseb yn 'Better than John Lewis' (y ffyrn enwog). Dyma'r pennawd: 'Christmas is made, not bought' gyda'r pwyslais hefyd ar y creisis costau byw. Yno dangoswyd gŵr gweddw a phlentyn bach wedi colli ei fam, a'r bychan yn cael torri ei wallt a'r barbwr yn gofyn iddo beth oedd yn ei gael gan Siôn Corn eleni? Ac meddai'r bychan yn wrol, 'Mae Siôn Corn yn wael eleni.' Roedd golygfa wedyn o amser gwely'r bychan a'r tad gofalgwr, a'r ddau'n dweud nos da wrth ei gilydd, y tad yn tycio'i fab bach yn glyd yn ei wely. Doedd yr olygfa nesaf ddim mor glyd. Y peth cyntaf wnaeth y tad wedi dod i lawr i'r ystafell fyw oedd troi'r gwres canolog i lawr, eistedd yn ei gadair ac wylo.

Ond fe wellodd pethau wedyn. Yna roedd golygfa ohono'n mynd ati i **wneud go-**

kart i'w fachgen bach annwyl. Bore Dolig yn cyrraedd, y tad yn galw'r mab bach i lawr i'r gegin fyw, ac o dan orchudd o bapur lapio roedd *go-kart* gan Siôn Corn iddo! Terfynir yr hysbyseb wrth weld y mab yn nwylo'i dad, yn sefyll wrth fedd ei fam, ac meddai'r bychan yn annwyl, 'Happy Christmas, mummy.'

Ia, hysbyseb sensitif, tyner, teimladwy a dagreul, stori a ddaw â lwmp i'n gyddfau. Ond er dyfeisgarwch a meddylgarwch y cyfeillion hyn, gwyddom ni, gyfeillion, nad yn y fan honno mae'r stori Nadolig yn gorffen, dim ond megis dechrau.

Fegofiw'n am y stori brydferth honno dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, yn nyfodiad y baban Iesu i'r byd a hynny mewn stabal dlawd a llychlyd, ym Methlehem. Ia, dyna chi, rydych wedi dyfalu'n iawn: yr Arglwydd Iesu sy'n **gwneud** ein Nadolig ni. Y fo, ac nid yr anrhegion (er i bawb eu gwerthfawrogi), fydd yn ei wneud 'leni fel pob Nadolig arall. A bydd yn parhau i wneud, dim ond i ni barhau i gyhoeddi ei enw a chredu ynddo. Fe'i **gwnaed** hefyd lawer iawn o weithiau wedyn – yn neges

yr angylion, 'Ganwyd i chi heddiw yn nhref Dafydd', ac fe wyddoch y gweddill. Fe'i **gwnaed** yn ymweliad y bugeiliaid a'r doethion, ac yn llawenydd Joseff a Mair a'r byd!

Yn ddiweddar, fe fues i'n sgwrsio gyda Thystion Jehofa. Anodd meddwl nad ydynt yn credu nac yn dathlu'r Nadolig. Iawn i bob carfan, sect a chrefydd gredu'r hyn y maent yn ei gredu, debyg iawn. Ond nid felly y credwn ni'r Nadolig hwn, does bosib? Rhywbeth i'w wneud yw'r Nadolig, nid ei brynu. Diolch, YouTube!

Ymhlith holl ryfeddodau'r nef
hwn yw y mwyaf un
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.

Yr eiddoch yn gywir (Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr *Cenn@d*)

Y Parchedig Iorwerth P. Jones
Rhuthun

I weld yr hysbyseb, ewch i <https://www.youtube.com/watch?v=v0grNSiiloc>

Cofiant arloesol a theilwng i un o gewri gwleidyddol yr ugeinfed ganrif yng Nghymru


Cymro i'r Carn: Cofiant Gwilym Prys-Davies, gan D. Ben Rees (Gwasg y Bwthyn; £12.95; clawr meddal)

Pleser o'r mwyaf yw cael croesawu o'r diwedd gofiant sylweddol a chytbwys ei farn i un o gewri gwleidyddol mwyaf nodedig yr ugeinfed ganrif yng Nghymru. Mae'n astudiaeth hollbwysig. Roedd yr awdur yn adnabod ei wrthrych yn dda am nifer fawr o flynyddoedd ac yn gyfaill mynswol iddo am ddegawdau, dros hanner canrif yn wir. Y mae'n gwerthfawrogi ei rinweddau, ei gryfderau a'i gyfraniadau mewn sawl cyfeiriad gwahanol.

Yn dilyn ei farwolaeth yn 93 mlwydd oed yn y flwyddyn 2017, daeth archif bwysig o'i bapurau i'r Llyfrgell Genedlaethol, a Ben Rees oedd un o'r ymchwilwyr cyntaf i wneud defnydd helaeth ohonynt ar gyfer y llyfr hwn. Mae'r archif yn cynnwys yn arbennig ohebiaeth anghyffredin o ddadlennol a diddorol. Mae'r cofiant hefyd yn seiliedig ar waith ymchwil manwl mewn nifer fawr o archifau pwysig eraill perthnasol. (Gweler y rhestr helaeth ohonynt ar dud. 313 yn y gyfrol.)

Ac, yn hollol wahanol i Jim Griffiths, Aneurin Bevan a Cledwyn Hughes, sef y gwleidyddion y mae'r Dr D. Ben Rees wedi llunio cofiannau sylweddol, uchel eu parch, iddynt yn barod (gan gynnwys cofiant i Griffiths yn Saesneg yn ogystal), nid gwleidydd proffesiynol, cyhoeddus yn yr un modd oedd yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies, ond un a lafuriai yn aml yn y dirgel, gan ddylanwadu ar eraill a chyflawni gwyrthiau yn dawel bach dros y genedl a garai a thros yr iaith Gymraeg. Gan ei fod yn ŵr rhyfeddol o swil a diymhongar wrth natur ac yn hoffi byw ei fywyd yn yr encilion, nid pawb a werthfawrogi ei gyfraniad dros y blynyddoedd.

Yn rhy aml o lawer, cofir am Gwilym Prys-Davies yn bennaf fel ymgeisydd aflwyddiannus y Blaid Lafur yn isetholiad nodedig sir Gaerfyrddin yng Ngorffennaf 1966 pan gipiwyd y sedd ymylol honno gan neb llai na'r Dr Gwynfor Evans, llywydd Plaid Genedlaethol Cymru ers



1945. Disgrifir yr ornest arbennig honno ym mhennod 7 o'r cofiant (tt. 108–25), sef 'isetholiad pwysicaf yr ugeinfed ganrif' ym marn Ben Rees. Ym 1964 cafodd Gwilym Prys-Davies siom aruthrol na ddewiswyd ef yn ymgeisydd ar gyfer etholaeth sir Feirionnydd (Gweler pennod 6).

Ond mae llawer iawn mwy i'w drafod wrth gwrs. Fel y gwelwn wrth ddarllen y llyfr, gwnaeth Gwilym waith arloesol i hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y llysoedd yn ystod y 1960au. Roedd hefyd yn un o'r selogion a frwydrodd yn amyneddgar i sefydlu S4C fel sianel ar gyfer darlledu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ym 1982. Ac roedd ei gyfraniad yn amhrisiadwy wrth lunio Deddfau'r Iaith Gymraeg 1967 ac eto 1993.

Roedd ei gyfraniad hefyd yn fwy cyffredinol yn sgil ei gefnogaeth i hybu datganoli yng Nghymru o'r 1960au ymlaen. Gweithredodd fel 'cynghorydd arbennig' i John Morris AS pan oedd yntau'n Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru yn y 1970au; roedd yn aelod gweithgar a dylanwadol o Fwrdd Ysbytai Cymru am flynyddoedd lawer, a thafloodd ei hun i mewn i fywyd Tŷ'r Arglwyddi ag ymroddiad bywiog a brwdfrydedd

anghyffredin. Enillodd barch ei gyd-arglwyddi yn fuan iawn. A phriodol iawn yw'r ffaith i Ben Rees gyflwyno'r astudiaeth hon i'r Arglwydd John Morris.

Mae Ben Rees yn ogystal wedi meistrolï'n llwyr yr elfennau hynny a ddaeth ynghyd i greu personoliaeth a chymeriad ei wrthrych. Yn eu plith mae ei gefndir teuluol yn Llanegryn, sir Feirionnydd, ei ddyddiau coleg yn Aberystwyth, ei waith o fewn Mudiad Gweriniaethol Cymru, a'i berthynas agos a phwysig â Goronwy O. Roberts AS a Huw T. Edwards. Ac mae nifer fawr o wleidyddion Llafur eraill yr ugeinfed ganrif yng Nghymru hefyd yn cael eu lle o fewn y stori ryfeddol hon.

Lluniwyd y testun cyfan mewn Cymraeg graenus a darllenadwy. Rhaid llongyfarch yr awdur yn wresog ar gyhoeddi campwaith pwysig arall eto a fydd yn sicr yn derbyn croeso cynnes gan nifer fawr o ddarllenwyr gwerthfawrogl ein cenedl.

J. Graham Jones

Y Pêr Wyddonydd, llythyrau o Bontrobert, a'r 'Offeiriad Ddarfu Gefnu'

Mae rhifyn newydd o'r *Cylchgrawn Hanes*, sef cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfaidd, wedi ei gyhoeddi. Mae'n cynnwys y Darlith Hanes ar gyfer 2021 gan yr Athro Iwan Rhys Morus, sy'n dadansoddi dyfnder deall Williams Pantycelyn o wyddoniaeth ei gyfnod, ynghyd â chyfraniad gan Dr Eryn White yn trafod yr offeiriad Methodistiaidd a arhosodd o fewn yr Eglwys Anglicanaidd wedi'r ymraniad yn 1811. Ceir hefyd olygiad gan yr Athro E. Wyn James o rai o lythyrau John Hughes, Pontrobert, a thrafodaeth ar yrfa Harriet Elias, merch yng nghyfraith y pregethwr o Fôn, John Elias, gan y Barchg Eirlys Gruffydd-Evans. Yn ogystal, ceir erthygl-adolygiad gan yr Athro Ceri Davies ar ail gyfrol *Theologia Cambrensis* gan D. Densil Morgan.

Gellir cael copïau trwy gysylltu â'r Parchg Ddr Elwyn Richards, 70 Cae Gwyn, Caernarfon LL55 1LL; abermenai@btinternet.com

Bedyddio yn 2022

Mae canlyniadau diweddar y cyfrifiad yn cadarnhau bod Cymru fel gwlad ar ei mwyaf seciwlar o fewn hanes, gyda llai na 44% o bobl yn dewis rhoi tic yn y blwch 'Cristnogol'. Ond er gwaetha'r gefnlen genedlaethol hon, mae pobl o bob oed ar draws y wlad eleni wedi dewis gwneud proffes o ffydd yn Iesu Grist, a chael eu bedyddio.

Cynhaliwyd o leiaf 35 bedydd crediniwr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru, o gapeli bychain gwledig fel Ebenezer, Cold Inn (sir Benfro) neu Beulah, Llidiart-y-waen (Powys), i gynulleidfaedd mwy o ran maint a fedyddiodd sawl crediniwr mewn rhai achosion yn ystod 2022.

Mae bedydd yn un o brif elfennau ein Datganiad o Egwyddor, fel yr amlinellodd y Parch. Ddr Densil Morgan, Llywydd UBC, yn ei anerchiad yn yr haf; ochr yn ochr ag arglwyddiaeth Crist a lle canolog cenhadaeth, 'mae bedydd yn ein rhwymo ynghyd'. Er bod pob enwad Cristnogol yn bleidiol mewn egwyddor i'r syniad o fedyddio crediniwr newydd ar ei broffes o ffydd, cred y Bedyddwyr mai: 'Bedydd Cristnogol yw'r weithred o drochi mewn

dŵr y sawl sydd wedi datgan edifeirwch ger bron Duw a ffydd yn ein Harglwydd Iesu Grist a fu farw dros ein pechodau yn ôl yr Ysgrhythrau, a gladdwyd ac a atgyfodwyd y trydydd dydd.'

Ac fel y tystir yn y 35 bedydd ledled y wlad drwy'r flwyddyn, mae bedydd yn ddigwyddiad pwysig sy'n newid bywydau pobl. Yn Ebenezer, Dyfed – capel gwledig yng ngogledd sir Benfro – bedyddiwyd tri chrediniwr, a'u hoedran yn amrywio o'r ardegau i ganol oed. Fel y dywedodd Fflur, 'Roedd y profiad o gael fy medyddio yn gwbl unigryw. All geiriau ddim disgrifio'r peth! Roedd hi'n gymaint o bleser gallu rhannu'r diwrnod gyda holl aelodau selog y capel a gyda ffrindiau a theulu.'

Yna, ym mis Medi, cynhaliwyd bedydd awyr agored gyda dau ddyn ifanc ym Methel, Silian, eglwys fechan â 24 aelod yn perthyn iddi yng Ngheredigion. Roedd y bedydd wedi'i ohirio o ganlyniad i'r pandemig, ac felly roedd llawer o lawenydd wrth i Mark ac Aron gael eu trochi'n symbolaidd yn y dyfroedd, i gael eu codi i fywyd newydd gyda Christ.

Dim ond dwy ymhlith llawer yw'r straeon hyn. Ond yr hyn sydd ganddyn nhw i gyd yn gyffredin yw'r ffaith fod yr Ysbryd Glân yn parhau i fod ar waith yn ein gwlad, gan alw pobl i ddilyn Iesu.



Bedyddio ym Methel, Silian



Bedydd Ebenezer, Dyfed

Difyrru Ieir

Roedd rhai'n credu mai tynnu coes yr oedd briidiwriero Loegr pan ddywedodd y byddai angen difyrru ei diadell â cherddoriaeth i'w cadw'n hapus pan gyfyngid nhw i'r sied yn sgil bygythiad y fflw adar. Difyrru ieir? Sut a pham? Dyma brofiad **Gwen Holt**, a fu'n dyst i effaith tonau emynau a cherddoriaeth Bach ar gynnyrch ieir Caerdybi, a hynny pan oedd yn saith oed!

Wedi i'n teulu ni – Nhad a Mam; Alwyn, fy mrawd hynaf; Gwyn, fy faill, a mi – symud o Groesoswallt i Gaerdybi ym 1947, daeth tro ar fydd: symud o fwthyn bach i glamp o dŷ mawr yn agos at draeth braf y byddem yn ei gyrraedd ar gefn beic. Roedd digonedd o dir o gwmpas y tŷ, yn cynnwys perllan a lle i chwarae tennis, criced a phêl-droed –



nefoedd o le, yn wir. Ar ben hynny, anferth o garej lle cedwid popeth yn y byd, ac ysgol i'w dringo i gyrraedd yr entrychion.

Prin iawn oedd y celfi yn y tŷ ond daeth tro ar fydd pan gyrraeddodd piano o rywle i'r lounge, yr ystafell ffrynt, a dyna ddechrau ar wersi piano. Wedyn, cyrraeddais adre o'r ysgol un prynhawn ac yn gwmni i'r piano roedd *American harmonium* anferth, urddasol, oedd wedi dod yn rhodd oddi wrth un o chwirydd fy nhad. Dyna brofi gwefr nad anghofiaf byth. Roeddwn wrth fy modd gan i mi fwynhau cymaint yng nghwmni Miss Nerys Pritchard, organyddes Seion, Croesoswallt, a adawai i mi eistedd ar y fainc gyda hi bob bore Sul. Er mai dim ond saith oed oeddwn, llwyddwn rywsut i gyrraedd pedals yr harmoniwm a chael digon o wynt i arbrofi gyda phob math o seiniau.

Yr organ wedi hynny oedd fy mhleser ond mynnai mam fy mod yn ymarfer at yr arholiadau piano a pherffeithio'r *scales* a'r *chords* ac yn y blaen. Doedd poliso'r organ ddim yn ateb y galw.

Penderfynodd Nhad gadw rhai ieir mewn *deep litter* yn y garej fawr a chadw rhai eraill yn rhydd yn y berllan. Mam oedd yn gyfrifol amdanynt, a minnau i'w helpu. Llwyddom ein dwy i ddod yn gyfarwydd â'r gwaith. Cyfrifydd yn y banc oedd Nhad a gosododd fi'n gyfrifol am Y LLYFR, cofnod dyddiol o nifer yr wyau oedd yn cael eu dodwy, yn y garej ac yn y berllan. Mewn llyfr arall, byddwn yn cofnodi faint o fwyd oedd yr ieir yn ei fwyta. Gyda chymaint o ddyletswyddau, roedd bywyd yn llawn pwsurdeb i un fach.

Cofiaf fel ddoe imi gyrraedd o'r ysgol a dioddef panic llwyr gan fod bwlch mawr lle bu'r organ. Fe'i symudwyd o'r tŷ i'r garej at yr ieir wedi i lygaid craff Mam sylwi fod pry yn y pren. Poeni yr oedd hi y byddai'r pry hefyd yn difa llawr pren hardd y lounge.

Ond dyma'r panic yn troi'n gyfle euraid. Cawn ddianc i'r garej a chwarae faint a fynnw'n ar yr organ, a heb yn wybod hynny ar y pryd swyno'r ieir. Nhad sylwodd, wrth astudio'r llyfr cofnodion, fod gwahaniaeth yn nifer yr wyau a gynhyrchai'r ieir ar wahanol brydiau. Beth oedd yn gyfrifol am hynny? Daethpwyd i'r casgliad rhyfeddol mai fy nghyfnodau i wrth yr organ oedd yn gwneud y gwahaniaeth. Hwrê!

Cawn fy annog wedyn i barhau â'm hymdrechion cerddorol, a sylwais fod yr ieir yn mynd i gysgu neu'n eistedd yn dawel ac yn gwranddo ar yr emynau ac ar Bach. Roedd gen i gynulleidfa werthfawrogol. Doedden nhw ddim yn feirniadol o'm hymdrechion. I'r gwrthwyneb, byddent yn dodwy mwy o wyau! Cyfraniad o bwys i gyllid y teulu oedd gwerthiant yr wyau. Byddent yn cael eu casglu gan y Bwrdd Marchnata Wyau ar foreau Llun. Gwaith Mam a minnau ar nosweithiau Sul, wedi'r oedfa, oedd sgleinio'r wyau a'u gosod fel sêr yn y trays, yn barod i'w casglu'r bore wedyn.

Mae gen i lawer felly i ddiolch i'r ieir. Do, mwynheais eu cwmni ond, yn ogystal, cefais ryddid i arbrofi a dysgu canu'r organ; cefais ddysgu cadw cofnodion a'u gwerthuso; cefais gipolwg ar fydd busnes ac, ar ben hyn i gyd, sylweddoli dawn cerddoriaeth i swyno ac ysbrydoli creaduriaid yn ogystal â phobl fel ni.

Cyfrifiad '21 – crisis ynteu calondid?

Ynghlwm wrth hanes geni Iesu Grist mae 'Cyfrifiad' Cesar. Wrth gefnu ar 2022 cawn air o anogaeth wrth ystyried canlyniadau'r cyfrifiad diweddar.

Daeth rhagor o ganlyniadau'r cyfrifiad diwethaf i law tua diwedd 2022. Ymhlith y rheini yr oedd nifer y bobl oedd yn galw eu hunain yn Gristnogion, neu o leiaf yn rhoi 'Cristnogaeth' i lawr fel eu crefydd. Er bod hyn wedi denu penawdau dramatig ar dudalennau rhai papurau newyddion, doedd e ddim wir yn syndod i unrhyw un ohonom mewn gwirionedd. Ry'n ni'n gwybod bod nifer mynychwyr addoldai Cristnogol yn lleihau, ac mai dim ond ffraciwn yw'r rheini o'u cymharu â rhif y rhai sy'n arddel Cristnogaeth mewn enw.

Tristwch?

Er nad yw'n syndod, mae'n dal i fod yn dristwch, oherwydd mae'n adlewyrchu lleihad dylanwad Cristnogaeth ar ein cymdeithas a'n diwylliant. Does dim amheuaeth na fu'r efenigol yn sail i gymaint o elfennau pwysig ein cymdeithas yng Nghymru a Phrydain ers canrifoedd. Tarddiad ysbytai, addysg ac elusennau oedd y ffydd Gristnogol. Os bydd y sylfaen yn diflannu, mater o amser yw hi cyn i'r adeilad ddymchwel.

Panig?

Serch hynny, does dim angen mynd i banig na themlo tor calon llwyr o gwbl. Wedi'r cwbl, bu Cristnogaeth yn y lleiafrif o'r cychwyn cyntaf a throeon wedyn ar hyd ei hanes mewn nifer o wledydd ac ardaloedd hefyd. Dechreuodd yr Arglwydd Iesu gyda deuddeg, a'n her ni yw bod yn ffyddlon iddo a bod yn halen ac yn oleuni yn ein byd, er bod llai ohonom.

Neges Haggai

Yn ddiweddar bues i'n darllen llyfrau Esra a Nehemia, yng nghyfnod ailadeiladu Jerwsalem a'r deml ar ôl i weddill y genedl ddod yn ôl o Fabilon. Yn Esra 3.12 ry'n ni'n darllen y geiriau rhyfedd hyn: "Yr oedd llawer o'r offeiriaid a'r Lefiaid a'r pennau-teuluoedd, a oedd yn ddigon hen i fod wedi gweld y tŷ cyntaf, yn wylo'n hidl pan welsant osod sylfaen y tŷ hwn; ond yr oedd llawer yn bloeddio'n uchel o lawenydd."

Dyna ddiwyddiad rhyfedd: y genhedlaeth iau yn gorfoleddu o weld sylfaen teml newydd wedi ei gosod, a'r to hŷn yn galaru wrth ei chymharu â theml odidog Solomon! A dwi'n synhwyro rhywbeth tebyg ymhlith Cristnogion yn sgil cyhoeddi ffigyrau crefyddol cyfrifiad 2021. Mae'r rhai hŷn yn galaru nad yw ein dyddiau ni'n cymharu â'r gorffennol agosach, heb sôn am 1904, 1859 neu 1735, tra mae'r rhai ifancach yn eithaf hapus o weld yr hen gyfundrefn yn graddol ddod i ben. Roedd Haggai yn proffwydo yr un pryd, wrth gwrs, a dywedodd yr Arglwydd drwyddo, "A adawyd un yn eich plith a welodd y tŷ hwn yn ei ogoniant cyntaf? Sut yr ydych chi yn ei weld yn awr? Onid megis dim yn eich golwg?" (Haggai 2.3)

Ond wedyn mae'r Arglwydd yn rhoi gair i'r arweinwyr, yr offeiriaid ac i'r bobl, yn adnodau 3-9. Dyma'r neges yn fras:

Ymgryfha ... gweithiwch – Dyma'r gair i bawb; ond sut a pham y dylen ni fod yn gryf a dal ati i weithio?

Oherwydd yr wyf fi gyda chi – Yr oedd wedi gwneud cyfamod â nhw wrth ddod â nhw o'r Aifft, y byddai'n Dduw iddynt. Doedd yr Arglwydd ddim wedi bod yn anffyddlon i'w addewid, er i'r bobl ei adael Ef droeon. Ac mae pob Cristion mewn cyfamod â'r Arglwydd Dduw yn Iesu Grist. Ac y mae'n dal i fod gyda ni!

Y mae fy Ysbryd yn aros yn eich plith – Er ein bod yn byw yn nydd y pethau bychain, y mae Ysbryd Glân Duw yn dal i drigo ymhlith ei bobl, ac yn y Cristion unigol. Ef yw cyfrwng pob nerth i ddal ati ac i fod yn fwy na choncwerwyr ym mhob math o amgylchiadau gwrthwynebus a heriol. 'Dyw buddugoliaeth a llwyddiant teyrnas yr Arglwydd ddim yn dod trwy lu byddin na thrwy gryfder dynol, ond drwy ei Ysbryd.

Peidiwch ag ofni – Mae'r Arglwydd yn dweud y bydd yn ysgwyd y cenedloedd er mwyn i'w trysor ddod i mewn i lenwi'r deml newydd â gogoniant. Daeth llawer o drysor drwy Cyrus ac fe godwyd y deml. Ond hefyd mae hon yn broffwydoliaeth



Cesar Augustus, Amgueddfa'r Fatican

Llun: Wikimedia Commons / Parth Cyhoeddus

o deml ysbrydol eglwys Dduw a gaiff ei llenwi â chredinwyr o'r holl genhedloedd dan haul (gan gynnwys Israel) cyn dyfodiad Iesu Grist yr ail waith.

Bydd gogoniant y tŷ diwethaf hwn yn fwy na'r cyntaf – Mae'r Arglwydd yn annog ei bobl i edrych ymlaen i'r dyfodol, nid 'nôl i'r gorffennol nac i wendid y presennol. Caiff holl blant yr Arglwydd eu casglu i mewn i'w deyrnas nefol ogoneddus erbyn dydd Iesu Grist.

"A theml ni welais ynnddi, oherwydd ei theml hi yw'r Arglwydd Dduw, y Hollalluog, a'r Oen. Nid oes ar y ddinas angen na'r haul na'r lleuad i dywynnu arni, oherwydd gogoniant Duw sy'n ei goleuo, a'i lamp hi yw'r Oen. A bydd y cenedloedd yn rhodio yn ei goleuni hi, a brenhinoedd y ddaear yn dwyn eu gogoniant i mewn iddi." (Datguddiad 21.22-4)

Tybed nad yw'r geiriau hyn yn neges amserol gan yr Arglwydd i ni yn sgil cyhoeddi ffigyrau crefyddol y cyfrifiad ac ar ddechrau blwyddyn arall yn ein hanes?

John Treharne

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 1 Ionawr m 7.30yh

Bydd Ryland yn Nyffryn Aman yn edrych ymlaen at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2023. Byddwn yn ymuno â chynulleidfa Cymanfa'r Cyhoeddi yng Nghapel Gellimanwydd, Rhydaman, o dan arweiniad Meinir Richards.

BBC radio
cymru

Sul, 1 Ionawr, am 12yp

Oedfa dan arweiniad Ainsley Griffiths, Caerfyrddin

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 1 Ionawr, am 4:30yp

R. Alun Evans sy'n cyflwyno'r ail raglen mewn cyfres yn trafod gwahanol themâu. Dechrau a diwedd blwyddyn yw'r thema heddiw

Ffydd a Diwylliant



Llun o wefan Banc Bwyd Arfon (<https://arfon.foodbank.org.uk/>)

Yr anghynefin yn ein cynefin

Hen gyfnod anniddig ydy hwn. Cyfnod cyfri'r Bounty yn y tun gwag. Cyfnod balŵns crepach. Cyfnod un-bach-arall cyn y deiet. Dyddiau llwm y tynnu trimins a phopeth yn edrych yn ddiarth.

Ella byddwch chi wedi symud y teledu i wneud lle i'r goeden. Neu symud cadair at y tân i nain gael cadw'n gynnes. Ac mae'n bryd i bethau fynd yn ôl fel roedden nhw.

Neu ydy hi?

Onid oes rhywbeth i'w ddweud am symud pethau weithiau er mwyn eu gweld nhw mewn goleuni arall a'u gwerthfawrogi nhw o'r newydd.

Mae darluniau yn gallu bod felly. Mae rhywun yn gallu cyfarwyddo â nhw. Gwirioni arnyn nhw i ddechrau, cydfyw â nhw am flynyddoedd, nes bod rhywun prin yn sylwi arnyn nhw. Nes eu bod nhw'n cael cornel newydd a'u gweld mewn goleuni gwahanol, ochr yn ochr â rhywbeth gwahanol a'ch bod chi'n ailddarganfod eu prydferthwch cynhenid nhw.

Mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd. Gall rhywun ddysgu byw efo rhywbeth. Darlun mae rhywun wedi ei etifeddu,

un ddaeth yn anrheg nad oedd fiw ei wrthod, neu gampwaith y daeth cymar â fo i'r cartref. Mae rhywun yn dysgu byw efo fo. Nes, ryw ddiwrnod, fod rhywbeth yn peri i chi edrych arno o'r newydd a dach chi'n sylweddoli peth mor hyll ydy o.

Mae modd cynefino â phethau na ddylen ni gynefino â nhw.

Dau beth felly ydy banciau bwyd a manau cynnes. Gweithredoedd prydferth, ond sefyllfaoedd na ddylen ni byth, byth gynefino â nhw.

Ddylen ni byth, byth, fod mewn sefyllfa lle nad ydyn ni'n gorfod meddwl ddwywaith am y pethau yma, fel petaen nhw wedi bod yno erioed, ac yn mynd i fod yno am flynyddoedd.

Byth. Byth.

Ddylai'r pethau hyn ddim gorfod bod. Canlyniad hunanoldeb systematig ydyn nhw. Pechod mwyaf ein hoes ni.

Y flwyddyn newydd hon, argraffwch y Fendith Ffransigaid yma, ei fframio a'i gosod ar y wal, ac addunedu i'w symud hi'n fisol fel bod ei harddwch a'i hagrwrch hi'n dal eich llygad chi gydol y flwyddyn ac nad ydy hi byth, byth yn llithro i gynefindra anweledig:

“Boed i Dduw ein bendithio ag **anniddigrwydd aflonydd** gydag atebion simplistig, hanner gwirioneddau a pherthynas arwynebol ag eraill, fel ein bod yn cyrchu'r gwirionedd yn eofn a byw yn nyfnderoedd ein calonnau.

Boed i Dduw ein bendithio â **chynddaredd** tuag at anghyfiawnder, gormes a'r rhai sy'n manteisio ar eraill, fel bod modd i ni weithio dros gyfiawnder rhyddid a heddwch.

Boed i Dduw ein bendithio â'r **rhodd o ddagrau** i'w colli dros y rhai sy'n dioddef poen a gwrthodiad; o *fod eisiau bwyd* ac o *golli popeth sy'n annwyl iddynt* fel bod modd i ni estyn ein dwylo i'w cysuro a gweddnewid eu poen yn llawenydd.

Boed i Dduw ein bendithio â digon o **ffolineb** i gredu y gallwn wneud gwahaniaeth *yn y byd hwn*, fel bod modd i ni, gyda gras Duw, wneud yr hyn y mae eraill yn honni nad oes modd ei wneud, i ddod â chyfiawnder a charedigrwydd i'r tlodion ac i'r plant.”

Rocet Arwel Jones

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Fel y cyflawnid y gair

Eryn 470 'Daeth Crist i'n plith'

Darlleniad: Eiseia 63:7-9 – Duw ffyddlon gyda ni

Gweddi

O sanctaidd Dduw, caniatâ i ninnau ar ddechrau blwyddyn newydd gael y fraint o ymuno â rhyfeddod a mawl dy bobl. Rhyfeddwn sut y daethost ti, yr hwn na all tragwyddoldeb ei gynnwys, i'n byd fel baban bach. Diolchwn i ti nad yw ein gobaith yn gorffwys yn ein ffyddlondeb anwadal ni, ond yn hytrach ar dy ffyddlondeb diarbed i'th addewid a'th gyfamod. Daethost atom, yr anfeidrol Dduw, drwy dy Fab, i wisgo am ennyd gorff meidrol; a daethost ti, yr hwn wyt yn Air byw, tragwyddol, i wisgo cnawd dynol. Caniatâ i ninnau yn awr y fraint o fod yng Nghrist, drwy dy Ysbryd Glân, er mwyn i'r anfarwol feddiannu ein marwoldeb, er mwyn i'r hyn sydd dros dro gael ei wisgo gan rym tragwyddoldeb ei hun. Arwain ni, gyda 'doethion', at gyflawniad ein hymchwil ysbrydol yn Iesu Grist. Arwain ni ato drwy dy Ysbryd Glân fel y medrwn dy adnabod, dy addoli, a'th wasanaethu. Amen.

Eryn 478 'O Faban glân'

Cyflwyniad

Byddai'n rhwydd i ni, yn nhyrnor carolau a dathlu genedigaeth baban glân a mwyn, gael ein llygad-dynnu gan dlysnir' darluniau a'r portreadau Nadolig arferol. Dacw ych ac asyn. Dacw fugeiliaid a doethion yn plygu gerllaw'r preseb. A dacw Joseff a Mair yn sylly mewn rhyfeddod addolgar ar y baban a anwyd yn geidwad i'r holl fyd. Byddai'n rhwydd iawn yng nghanol y cyfarwydd i fethu gweld bod cyflawniad addewidion Duw ar gerdded a bod chwyldröwr dwyfol i herio holl werthoedd y byd wedi dod i'n plith.

Pan drow'n i edrych ar naratif Mathew am yr hyn ddigwyddodd wedi genedigaeth Iesu, byddai'n rhwydd iawn ar yr olwg gyntaf tybied bod y 'proffwydoliaethau' y mae'n cyfeirio atynt, a'i ddefnydd o ddyfyniadau o'r Hen Destament, yn ymestyn cyddestun gwreiddiol yr adnodau y tu hwnt i'w terfynau amlwg.

Ond, fel y cawn weld, mae'r darlun a bortreadir o Iesu a defnydd Mathew o'r ysgrythurau yn gwbl fwriadol ac yn gyfan gwbl wefreiddiol. Fe'u cyflwynir i ni mewn tri chameo bychan.

Darlleniad: Mathew 2:13-15 – Ffoi i'r Aiff

Aeth misoedd heibio rhwng genedigaeth Iesu ac ymweliad y seryddion doeth. Dychwelsant hwythau ar ôl ychydig amser i'w cartrefi ar hyd llwybr gwahanol. Nid oedd Jerwsalem na phalas brenhinol Herod ar eu llwybr y tro hwn.

Ond ni chafodd Joseff, a Mair a'r baban Iesu lonydd. Ymwelodd angel â Joseff a'i rybuddio am y bygythiad o gyfeiriad Herod i fywyd Iesu. Gwell fyddai ffoi am ychydig gyda'i deulu ifanc i'r Aiff.

Gwelodd Mathew arwyddocâd neilltuol yn hyn. Dyma sut, meddai, y 'cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd: "O'r Aiff y gelwais fy mab." (Hosea 11:1) Mae Mathew am i ni ddeall bod Iesu'n dilyn llwybr gwaredigaeth y genedl, ond ei fod yr un pryd yn agor llwybr o Exodus gwaredigol newydd ar gyfer y dyfodol.

Ffoi i'r Aiff wnaeth Isaac er mwyn osgoi newyn ac roedd dychweliad y genedl yn ddiweddarach o gaethiwed yr Aiff, o dan arweiniad Moses, yn llwybr oedd yn llwyr ddibynol ar weithgarwch Duw yn yr Exodus.

Edrych yn ôl at ymyrraeth Duw a wna Hosea. Cyhoeddi mai cysgod amherffaith oedd Exodus yr Aiff o Exodus rhagorach *oedd i ddod*, drwy Iesu Grist a'i aberth, a wna Mathew. Fe'n cyflwynir felly ar ddechrau ei efengyl i Iesu, yr hwn a orfodwyd i 'ffoi i'r Aiff', cyn iddo ddychwelyd fel yr un ffyddlon sy'n sefydlu Israel newydd (gweler hefyd Mathew 4:1-11).

Darlleniad: Mathew 2: 16-18 – Lladd y Bechgyn

Roedd Herod yr unben yn 'gynddeiriog' am na ddychwelodd y seryddion ato. Yn ei baranoia roedd yn benderfynol o ddifetha Iesu. Nid oedd cyflawnir' fath drosedd erchyll y tu hwnt i Herod. Onid oedd wedi llofruddio'i wraig a difetha rhai o'i feibion am iddo dybio'u bod yn cynllwynio i'w erbyn?

Cymaint mwy oedd y bygythiad i'w deyrnas ar enedigaeth 'brenin' newydd nag oedd sibrydion cynllwyngar y llys.

Cyn i Iesu fedru llefaru gair na cherdded cam, deallodd ymerodraethau'r byd (a gynrychiolir yma gan Herod) fod y ffoadur o frenin gostyngedig hwn yn fygythiad i sail a pharhad eu teyrnasoedd treisgar. Lle bynnag y cyhoeddir mai 'Iesu yw'r

Arglwydd', condemnir pob llywodraeth a phob teyrnas fel breniniaethau teyrn bradwrus sy'n deyrnasoedd mewn rhith yn unig.

Pan drow'n yn benodol at 'y gair a lefarwyd trwy Jeremeia'r proffwyd', gwelwn pa mor chwyldroadol oedd cynnwys y disgwyliad hwn. Er i'r gair a lefarwyd gan Jeremeia (31:15) gael ei gyhoeddi mewn cyfnod o dristwch cenedlaethol, gwelwn fod yr adran am wylofain Rachel a 'llef yn Rama ...' yn ymddangos yng nghanol neges ehangach am obaith llawen.

Mae Mathew am i'w ddarllenwyr wybod y daeth gobaith i fyd o alar drwy addewid Duw ac mai yng nghanol wylofain y byd y canfyddir bod Duw gyda ni yn Iesu. Ef, yr Imanuel, yw sychwr pob dagrau a gobaith pob calon ysg.

Darlleniad: Mathew 2:19-23 – Dychwelyd o'r Aiff

Wrth ddychwelyd o'r Aiff i Nasareth, yn ôl Mathew, cyflawnwyd 'y gair a lefarwyd trwy'r proffwyd: "Gelwir ef yn Nasaread." Ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw adnod benodol yn yr Ysgrythurau Iddewig sy'n dweud hyn! Awgryma rhai felly fod Mathew am i ni ddeall bod Iesu'n cyflawni amrediad y proffwydoliaethau i gyd. Mwy tebygol, fodd bynnag, yw fod Mathew yn meddwl am yr addewid a roed drwy Eiseia (11:1) lle y cyfeirir at y 'wialen' neu'r gangen a fyddai'n hanu o gyff Jesse a fyddai'n dod yn waredwr ac yn farnwr y byd. Ystyr 'nazir' yw cangen; Iesu, yw'r wialen hirddisgwylidig o gyff Jesse ac yn Nasareth y canfuwyd ef.

Drwy ei ddewis o ddyfyniadau mae Mathew am i ni adnabod Iesu fel y dechrau newydd – y gwir Israel, sy'n ffyddlon i'r Arglwydd. Mae am i ni adnabod Iesu fel yr hwn sy'n dwyn gobaith yng nghanol byd diobaith sy'n llawn o drasiedi ac o wylofain. Mae am i ni adnabod Iesu fel gwir gyflawnwr gobeithion yr Ysgrythurau Iddewig, fel y 'gangeu newydd', fel adferwr brenhiniaeth, fel sefydlwr teyrnas anorchfygol.

Iesu yw'r hwn fydd gyda'i ddisgyblion bob amser hyd ddiwedd y byd.

Gweddi

Diolchwn i ti y cawsom y Meseia, yr hwn y 'darfu i Moses a'r proffwyd / ddweud amdano cyn ei ddod'. Diolchwn, Arglwydd, am gael ei adnabod. Llanw ni â gobaith, â hyder a disgwyliad newydd.

Eryn 92 – 'Tad tragwyddoldeb'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)